OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 226 (Cy.20)

CREDYDAU TRETH, CYMRU

Y Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007

Wedi'i wneud	- -	*30 Ionawr 2007*
Yn dod i rym	- -	*1 Chwefror 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sef yr awdurdod cenedlaethol priodol o dan adran 12(6) o Ddeddf Credydau Treth 2002(**1**) a thrwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 12(5), (7) ac (8) a 65(3) a (9) o'r Ddeddf honno, ac ar ôl ymgynghori â Chyngor y Tribiwnlysoedd yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992(**2**), yn gwneud y Cynllun canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Cynllun hwn yw'r Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007 a daw i rym ar 1 Chwefror 2007.

(2) Mae'r Cynllun hwn yn gymwys o ran Cymru.

Diffiniadau

2. Yn y Cynllun hwn—

mae i'r term "*cartref plentyn*" yr ystyr a briodolir i'r term "child's home" yn Rheoliadau Credyd Treth Gwaith (Yr Hawl i'w Gael a'r Gyfradd Uchaf) 2002(**3**);

ystyr "corff cymeradwyo" ("*approval body*") yw'r corff y cyfeirir ato yn erthygl 3;

mae i "cyfrifoldeb rhiant" a "maethu plentyn yn breifat" yr ystyron a briodolir i'r ymadroddion "parental responsibility" a "fosters a child privately" gan adrannau 3 a 66 o Ddeddf 1989;

ystyr "Deddf 1989" ("*the 1989 Act*") yw Deddf Plant 1989(**4**);

mae i'r ymadrodd "gofal plant cymwys" ("*qualifying child care*") yr ystyr a briodolir iddo yn erthygl 5;

(**1**) Deddf Credydau Treth 2002 (p.21).
(**2**) Deddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992 (p.53).
(**3**) Rheoliadau Credyd Treth Gwaith (Yr Hawl i'w Gael a'r Gyfradd Uchaf) 2002 (O.S. 2002/2005).
(**4**) Deddf Plant 1989 (p.41).

mae i'r ymadrodd "meini prawf cymeradwyo" ("*approval criteria*") yr ystyr a roddir iddo yn erthygl 7;

ystyr "perthynas" ("*relative*") o ran plentyn yw taid (tad-cu), nain (mam-gu), modryb, ewythr, brawd neu chwaer, (boed o waed coch cyfan, o hanner gwaed, drwy briodas, drwy bartneriaeth sifil neu drwy gyfathrach) neu lys-riant;

mae i'r term "plentyn" yr ystyr a briodolir i'r term "child" yn Rheoliadau Credyd Treth Plant 2002(**5**);

ystyr "y Rheoliadau Tribiwnlys" ("*the Tribunal Regulations*") yw Rheoliadau Tribiwnlys Amddiffyn Plant ac Oedolion Hyglwyf a Safonau Gofal 2002(**6**);

mae "rhiant" ("*parent*") yn cynnwys person—

(a) sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn;

(b) rhiant maeth awdurdod lleol mewn perthynas â phlentyn;

(ch) rhiant maeth y mae plentyn wedi'i leoli gydag ef gan gorff gwirfoddol; neu

(c) person sy'n maethu plentyn yn breifat.

ystyr "y Tribiwnlys" ("*the Tribunal*") yw'r tribiwnlys a sefydlwyd gan adran 9 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999(**7**);

ystyr "tystysgrif cymorth cyntaf berthnasol" ("*relevant first-aid certificate*") yw tystysgrif ar gyfer cwrs hyfforddiant cymorth cyntaf—

(a) sy'n addas i ofal babanod a phlant;

(b) sy'n cynnwys hyfforddiant yn y meysydd canlynol: ymdrin ag argyfyngau; dadebru; sioc; tagu; sioc anaffylactig; ac

(c) y mae'r ceisydd wedi ymgymryd ag ef heb fod yn fwy na thair blynedd cyn y dyddiad y mae'r cais am gymeradwyaeth yn cael ei wneud.

Corff penodedig

3. Nestor Primecare Services Limited sy'n masnachu fel Nestor Criminal Records Agency(**8**) yw'r corff a bennwyd at ddibenion rhoi cymeradwyaethau o dan y Cynllun hwn.

Gofynion y Cynllun

4. At ddibenion rheoliadau sy'n cael eu gwneud o dan adran 12 o Ddeddf Credydau Treth 2002, dim ond—

(a) os yw wedi'i gymeradwyo am y tro gan y corff cymeradwyo; a

(b) ar gyfer gofal plant cymwys a ddarperir ganddo

y mae person yn ddarparydd gofal plant a gymeradwyir yn unol â'r Cynllun hwn.

Gofal Plant Cymwys

5.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), ystyr gofal plant cymwys yw gofal a ddarperir ar gyfer plentyn gan unigolyn am wobr yn llwyr neu'n bennaf yng nghartref y plentyn.

(**5**) Rheoliadau Credyd Treth Plant 2002 (O.S. 2002/2007)
(**6**) Rheoliadau Amddiffyn Plant ac Oedolion Hyglwyf a'r Tribiwnlys Safonau Gofal 2002 (OS 2002/816).
(**7**) Deddf Amddiffyn Plant 1999 (p.14)
(**8**) A gofrestrwyd yn Lloegr Rhif 1963820.

(2) Pan fo'r gofal y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yn cael ei ddarparu ar gyfer nifer o blant o wahanol gartrefi ar yr un pryd, mae hwnnw'n ofal plant cymwys os caiff ei ddarparu yn llwyr neu'n bennaf yng nghartref un neu ragor o'r plant y darperir y gofal iddynt.

(3) Nid yw gofal plant cymwys yn cynnwys—

(a) gwarchod plant sy'n ddarostyngedig i gofrestru yn unol â Rhan 10A o Ddeddf 1989;

(b) gofal a ddarperir am wobr gan unrhyw berson ar gyfer plentyn wyth mlwydd oed neu'n hyn heblaw ei fod yn unol â pharagraff (1) neu (2).

(c) gofal plant sy'n cael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref y plentyn ar gyfer plentyn y mae'r darparydd yn rhiant iddo neu'n berthynas iddo; neu

(ch) gofal plant sy'n cael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref perthynas i'r plentyn lle mae'r gofal hwnnw fel arfer yn cael ei ddarparu'n unig ar gyfer un neu fwy o blant y mae'r darparydd yn rhiant neu'n berthynas iddo neu iddynt.

Person a gymeradwywyd

6.—(1) Yn ddarostyngedig i erthygl 13, rhaid rhoi cymeradwyaeth i berson fel darparydd gofal plant o dan y Cynllun hwn os yw'r corff cymeradwyo wedi'i fodloni bod y meini prawf cymeradwyo wedi'u bodloni mewn perthynas â'r person hwnnw.

(2) Mae person y mae cymeradwyaeth wedi'i rhoi iddo o dan baragraff (1) yn peidio â bod yn berson sydd wedi'i gymeradwyo felly os yw'r gymeradwyaeth honno wedi'i thynnu'n ôl gan y corff cymeradwyo.

(3) Caiff y corff cymeradwyo dynnu cymeradwyaeth yn ôl os yw wedi'i fodloni nad yw'r meini prawf cymeradwyo yn cael eu bodloni mwyach o ran y person hwnnw.

Meini prawf cymeradwyo

7. O ran cais am gymeradwyaeth fel darparydd gofal plant, y meini prawf cymeradwyo yw—

(a) bod y ceisydd yn 18 mlwydd oed neu drosodd;

(b) bod y ceisydd wedi cael un o'r cymwysterau a bennir o dro i dro mewn rhestr a gedwir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru at ddibenion yr erthygl hon;

(c) bod y ceisydd wedi sicrhau tystysgrif cymorth cyntaf berthnasol; ac

(ch) nad yw'r ceisydd yn cael ei ystyried yn anaddas i weithio gyda phlant neu nad yw'n cael ei ystyried yn anaddas i gael mynd atynt heb oruchwyliaeth.

System gymeradwyo

8.—(1) Rhaid i'r corff cymeradwyo weithredu system ar gyfer penderfynu ceisiadau am gymeradwyaeth a gyflwynir iddo o dan y cynllun hwn a rhaid iddo wneud trefniadau digonol i roi cyhoeddusrwydd i fanylion y system honno.

(2) Yn benodol, a heb leihau effaith paragraff (1) yn gyffredinol, rhaid i'r system gymeradwyo y cyfeiriwyd ati yn y paragraff hwnnw:

(a) darparu ar gyfer gweithdrefn y caniateir i geisydd wneud cais drwyddi am gymeradwyaeth;

(b) nodi gofynion sy'n ymwneud â cheisydd yn darparu tystiolaeth ddogfennol neu dystiolaeth arall sy'n angenrheidiol i ddangos bod y meini prawf cymeradwyo wedi'u bodloni;

(c) darparu ar gyfer gweithdrefn y caniateir i gymeradwyaethau gael eu tynnu'n ôl drwyddi;

(ch) darparu bod y ceisydd yn cael hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad i roi neu wrthod cymeradwyaeth neu ei thynnu'n ôl;